Annwyl riant/ofalwr,

Croeso nôl i'r flwyddyn academaidd newydd a diolch i bawb sy'n sicrhau bod eu plentyn yn mynychu'r ysgol.

Mae disgyblion â phresenoldeb isel yn fwy tebygol o syrthio ar ei hôl hi gyda'u gwaith, cael bylchau yn eu dysgu, ac felly, cyflawni canlyniadau arholiadau is. Bydd hyn yn effeithio ar eu cyfleoedd bywyd yn y dyfodol.

Mae gan bob un ohonom y cyfrifoldeb i sicrhau bod ein disgyblion yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, fel y gallant gyrraedd eu potensial llawn.

Mae disgybl sy'n cyflawni presenoldeb o 90% yn dal i golli allan ar swm sylweddol o addysg.

**Presenoldeb o 90% = colli ½ diwrnod bob wythnos**

**Presenoldeb o 90% dros 5 mlynedd o ysgol = colli ½ blwyddyn ysgol**




**Sut gall yr Awdurdod Lleol eich cefnogi?**

Mae Swyddogion Lles Addysg (SLlA) yn cefnogi ysgolion, disgyblion a rhieni/gofalwyr i annog plant i fynychu'r ysgol yn rheolaidd.

Os nad yw eich plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd, bydd y Pennaeth neu aelod arall o staff eisiau cwrdd â chi i drafod y rheswm pam nad yw eich plentyn yn mynychu'r ysgol. Os yw presenoldeb yn parhau i fod yn broblem, gall yr ysgol atgyfeirio i'r Gwasanaeth Lles Addysg.

**Yr hyn mae'r gyfraith yn ei ddweud**

Mae’n rhaid i bob plentyn o oedran ysgol gorfodol (rhwng 5 a 16 oed) gael addysg llawn amser addas. Fel rhiant/gofalwr rydych chi'n gyfrifol am sicrhau bod hyn yn digwydd ac mae gennych rôl hanfodol i sicrhau ac annog presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o Gyrff Llywodraethu ysgolion wedi dewis defnyddio Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gyfer rhieni/gofalwyr nad ydynt yn gweithio gyda'r ysgol i gefnogi eu plentyn i dderbyn addysg reolaidd. Mae'r Awdurdod Lleol yn disgwyl i bob ysgol weithio'n agos gyda disgyblion a rhieni i sefydlu disgwyliadau uchel ar gyfer presenoldeb.

**Os byddwch yn hwyr**

Gwnewch yn siŵr bod eich plentyn yn cyrraedd yr ysgol ar amser. Gall fod yn straen cyrraedd yr ysgol yn hwyr**.** Mae disgybl sy'n cyrraedd yn hwyr hefyd yn tarfu ar wersi i eraill**.**Gall bod yn hwyr yn barhaus gael ei ystyried yn absenoldeb heb awdurdod a gellir ei atgyfeirio i’r Gwasanaeth Lles Addysg.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus a'ch partneriaeth gydag ysgolion a lleoliadau addysg eraill er budd yr holl ddisgyblion. Mae pawb sy'n gweithio ym maes addysg ar draws Cyngor Dinas Casnewydd eisiau helpu mewn unrhyw ffordd bosibl i annog presenoldeb rhagorol yn yr ysgol, er mwyn sicrhau bod ein pobl ifanc yn llwyddo.

Sarah Morgan.

**Sarah Morgan**

Prif Swyddog Addysg

Dear parent/carer,

Welcome back to the new academic year and thank you to everyone who is ensuring their child attends school.


Pupils with low attendance are more likely to fall behind with their work, have gaps in their learning, and therefore, achieve lower examination results. This will affect their life chances for the future.

We all have the responsibility to ensure that our pupils achieve the best start in life, so they can reach their full potential.

A pupil who achieves 90% attendance is still missing out on a significant amount of education.

**90% attendance = ½ a day missed every week**

**90% attendance over 5 years of school = ½ a school year missed**




**How can the Local Authority support you?**

Education Welfare Officers (EWO's) support schools, pupils and parents/carers to encourage children to attend school regularly.

If your child does not attend school regularly, the Headteacher or another member of staff will want to meet with you to discuss the reason for your child not attending school.  If attendance continues to be a problem the school may refer to the Education Welfare Service.

**What the law says**

All children of compulsory school age (between 5 and 16) must receive a suitable full-time education. As a parent/carer you are responsible for making sure this happens and you have a vital

role to ensure and encourage regular attendance at school. Most school Governing Bodies have opted to use Fixed Penalty Notices for parents/carers who do not work with the school to support their child in receiving a regular education. The Local Authority expects all schools to work closely with pupils and parents to establish high expectations for attendance.

**Lateness**

Please ensure that your child arrives at school on time. It can be very stressful to arrive late for school. A pupil arriving late also disrupts lessons for others. Persistent lateness can be classed as unauthorised absence and can be referred to the Education Welfare Service.

Thank you for your ongoing support and partnership with schools and other education settings for the benefit of all pupils. Everyone working in education across Newport City Council wants to help in any way possible to encourage excellent attendance in school, to ensure our young people achieve success.




**Sarah Morgan**

Chief Education Officer

Prif Swyddog Addysg